



Teitl: *Llên-ladrad*
Cyfeirnod: *Caiff ei neilltuo i'r ddogfen ar ôl ei chymeradwyo*
Fersiwn: *1.0*
Dyddiad cyhoeddi: *Fel arfer yr un fath a'r dyddiad cymeradwyo*
Dosbarthiad: *Cyhoeddus*

Adolygu a Chymeradwyo

<i>Cyfrifoldeb:</i>	<i>Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd a Sgiliau Hanfodol</i>
<i>Corff Cymeradwyo:</i>	<i>CSG</i>
<i>Dyddiad Cymeradwyo:</i>	<i>LPOC Mehefin 2018</i>
<i>Amllder Adolygu:</i>	<i>3 blynedd fel arfer</i>
<i>Dyddiad dod i ben:</i>	<i>06/05/22</i>
<i>Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb:</i>	<i>Mehefin 2018</i>

Cwmpas

Mae'r strategaeth hon yn berthnasol i bob dull o ddarpariaeth addysgu a dysgu yn y coleg, gan gynnwys addysg bellach, addysg uwch, cyrsiau cyswllt ysgolion, dysgu cymunedol i oedolion a dysgu yn y gwaith.

Polisi Llên-ladrad

Polisiâu eraill y coleg sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn:

- *Polisi Arholiadau*
- *Polisi Asesu dan Reolaeth*
- *Polisi Apeliadau Mewnol*

Mae'r polisi llên-ladrad hwn yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau a osodwyd gan gyrff dyfarnu a rheoleiddwyr sefydliadau addysg uwch. Mae'r polisi hwn hefyd yn atgyfnerthu'r rheolau a'r rheoliadau a amlinellwyd gan Y Cyd-gyngor Cymwysterau Cyffredinol (JCQ) yn 'Polisiâu a Gweithdrefnau Camymddwyn Awgrymedig mewn Arholiadau ac Asesiadau'.¹

Gellir diffinio llên-ladrad fel cyflwyno gwaith rhywun arall fel gwaith chi eich hun. Fel rhan o astudiaethau'r coleg o ddydd i ddydd, bydd dysgwyr yn cydweithio ag eraill ac yn rhannu adnoddau a syniadau. Byddant hefyd yn gweld gwaith athrawon a deunyddiau cyhoeddedig. Fodd bynnag, pan gyflwynir aseiniadau ffurfiol, mae'n hanfodol bod myfyrwyr bob amser yn cydnabod ffynhonnell y syniadau a'r wybodaeth y maent yn ei ddefnyddio eu gwaith.

Gall Llên-ladrad fod yn:

- gopïo gwaith dysgwr arall
- lawrlwytho deunydd o'r rhyngwyd
- dyfynnu gwaith rhywun arall gair am air heb gydnabod y ffynhonnell
- dynwared neu aralleirio gwaith pobl eraill (gan gynnwys deunyddiau cyhoeddedig) a'i gyflwyno fel eich gwaith chi eich hun, heb gyfeirio at y ffynhonnell wreiddiol,
- defnyddio syniad rhywun arall fel eich syniad chi eich hun
- torri a chludo darnau o'r rhyngwyd i greu gwaith chi eich hun heb nodi'r ffynhonnell
- prynu neu lawrlwytho aseiniadau ar-lein gan eraill, gan gynnwys cyn-fyfyrywyr.

Os yw unrhyw ddeunyddiau yn cael eu copïo, eu defnyddio fel dyfyniad neu'n cael eu haralleirio, mae'n rhaid i'r dysgwr nodi'r ffynhonnell.

Nid yw llên-ladrad yn ymwneud â gwaith ysgrifenedig yn unig, mae'n cynnwys pob math o gyflwyniad aseiniadau, gan gynnwys, er enghraifft, cyfansoddiadau cerddorol, arteffactau a data ar ffurf electronig ar gyfrifiadur.

¹ <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice/suspected-malpractice-in-examinations-and-assessments-2015-16>

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr sy'n ymgymryd â chymwysterau yng Ngholeg Cambria.

Mae llên-ladrad yn cael ei ystyried yn fater difrifol iawn yng Ngholeg Cambria, ac efallai bydd yn arwain at gamau disgyblu a thynnu myfyrwyr yn ôl o'r cymhwyster. Mewn asesiadau'r JCQ, diffinnir llên-ladrad fel: 'camymddwyn gan ymgeisydd'. Diffinnir hyn yn eu dogfennau polisïau a gweithdrefnau fel:

'Mae camymddwyn gan ymgeisydd' yn golygu camymddwyn gan ymgeisydd yn ystod unrhyw arholiad neu asesiad, gan gynnwys paratoi a dilysu unrhyw asesiadau neu waith cwrs dan reolaeth, cyflwyno unrhyw waith ymarferol, casglu portffolios o dystiolaeth asesu ac ysgrifennu unrhyw bapur arholiad.'

1. Ymwybyddiaeth

- Mae'n rhaid i holl fyfyrwyr ddeall polisi llên-ladrad y coleg a'i drafod ar ddechrau eu cwrs, cyn cyflwyno eu haseiniad cyntaf.

2. Gwirio

- Dylai tiwtoriaid gynnal gwiriadau ar hap, a phrofi brawddegau mewn peiriannau chwilio os ydynt yn amau nad yw'r gwaith a gyflwynwyd yn waith gwreiddiol y myfyriwr.
- Bydd y coleg yn defnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad ar gyfer rhai cyrsiau lefel uwch, fel bo'r angen.

3. Ymdrin â Llên-ladrad

3.1 Lle cyflwynwyd gwaith wedi'i lên-ladrata yn ffurfiannol ond ni lofnodwyd unrhyw ddatganiad dilysu

- Os amheuir bod dysgwr wedi cyflwyno gwaith wedi'i lên-ladrata ac ni lofnodwyd unrhyw ddatganiad dilysu, bydd y tiwtor yn cynnal y gwiriadau a ddisgrifiwyd yn rhan 2, gan ymchwilio i weld a yw'r dysgwr wedi cyflwyno gwaith rhywun arall fel ei waith ef / ei gwaith hi ei hun.
- Mae polisïau a gweithdrefnau'r JCQ yn nodi:

'Nid oes angen hysbysu'r corff dyfarnu am gamymddwyn gan ymgeisydd mewn gwaith cwrs neu elfen asesu dan reolaeth o fanyleb a ddarganfuwyd, cyn i'r ymgeisydd sy'n llofnodi'r datganiad dilysu, ond rhaid ymdrin â hwy yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan. Os nad yw ymgeisydd wedi'i gofnodi gyda chorff dyfarnu ar gyfer yr elfen, yr uned neu'r cymhwyster, mae'n rhaid ymdrin â chamymddygiad a ddarganfyddir mewn asesiad dan reolaeth neu waith cwrs yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan.'

- Os darganfyddir achos o lèn-ladrad, y gweithdrefnau mewnol yw; rhaid i'r tiwtor ymdrin â'r mater gyda'r dysgwr yn uniongyrchol a chanfod a oedd y llên-ladrad yn ymgais fwriadol i gyflwyno gwaith rhywun arall, neu a oedd yn achos o anwybodaeth, lle bydd rhaid ailgyflwyno'r gwaith.
- Os yw'r tiwtor yn credu bod gwaith wedi'i lèn-ladrata yn fwriadol mewn modd anonest, cyfeirir y dysgwr at y Dirprwy Gyfarwyddwr/ Rheolwr Dysgu yn y Gwaith i ymchwilio o'r mater ymhellach. Cynhelir yr ymchwiliad o fewn 10 niwrnod gwaith, gan ymgynghori â'r myfyriwr / myfyrwr a'r tiwtor(iaid) perthnasol.
- Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y tramgwydd, y dystiolaeth a gyflwynwyd ac a ddigwyddodd hynny o'r blaen, bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr / Rheolwr Dysgu yn y Gwaith yn penderfynu a yw ymddygiad y myfyriwr yn groes i'r polisi ymddygiad myfyrwr ac a fyddai'n briodol gweithredu'r broses ddisgyblu. Yn yr achosion mwyaf difrifol o lèn-ladrad, efallai bydd y myfyriwr yn cael ei eithrio o gwrs y coleg a chael ei dynnu'n ôl o'r cymwysterau.

3.2 Lle cyflwynir gwaith wedi'i lèn-ladrata fel asesiad dan reolaeth o waith cwrs a bod yr ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysu:

Dan yr amgylchiadau uchod, bydd unrhyw lèn-ladrad yn cyfrif fel 'camymddwyn gan ymgeisydd' yn unol â dogfennau polisiâu a gweithdrefnau'r JQC. Mae arweiniad JQC dan yr amgylchiadau hyn yn nodi:

'Fel rheol ni ddylai canolfannau roi credyd am unrhyw waith a gyflwynir nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun. Os rhoddwyd unrhyw gymorth, rhaid gwneud nodyn o hynny ar daflen glawr gwaith yr ymgeisydd neu le priodol arall. Pan ddarganfyddir camymddwyn gan ddysgwr mewn cymhwyster galwedigaethol, cyn i'r gwaith gael ei gyflwyno ar gyfer ardystio, dylai canolfannau gyfeirio at y canllawiau a ddarperir gan y corff dyfarnu.'

4. Apeliadau

4.1 Apeliadau yn erbyn camau disgyblu mewnol sy'n berthnasol i lèn-ladrad:

- Gweler y polisi apeliadau mewnol ar gyfer gweithdrefnau apeliadau mewnol.

4.2 Apeliadau yn erbyn asesiadau a gyflwynwyd ar gyfer asesiad mewnol a'u gwrthod ar sail camymddygiad ymgeiswyr, sy'n gysylltiedig â llên-ladrad:

Mae polisiâu a gweithdrefnau JQC yn nodi, lle gwrthodwyd gwaith dan yr amgylchiadau uchod:

'Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Mae gwefan y JQC yn cynnwys cyngor ar y gweithdrefnau a argymhellir ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniadau asesu mewnol.'